

Public Document Pack

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Bridgend County Borough Council



Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.
Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich
dewis iaith.*

*We welcome correspondence in Welsh. Please
let us know if your language choice is Welsh.*



Annwyl Cyngorydd,

CYNGOR

Cynhelir Cyfarfod Cyngor o bell trwy Skype ar **Dydd Mercher, 22 Gorffennaf 2020** am **15:00**.

AGENDA

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.
2. Datganiadau o fuddiant
Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau /
Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y
Cyngor o 1 Medi 2008.
3. Cymeradwyaeth Cofnodion 5 - 26
I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 26/02/20 a 11/03/20
4. I dderbyn cyhoeddiadau oddi wrth y Maer
5. I dderbyn cyhoeddiadau oddi wrth yr Arweinydd
6. Diweddariad ar Ymateb Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i Covid-19 27 - 32
7. Canlyniad y Rhaglen Gyfalaf 2019-20 ac Adroddiad Diweddarau Chwarter 1 33 - 58
2020-21
8. Adroddiad Gwybodaeth i'w Nodi 59 - 64
9. I dderbyn y cwestiynau canlynol gan:

Ffôn/Tel: 01656 643643

Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014

Facs/Fax: 01656 668126

Twitter@bridgendCBC

Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk

Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk

Cyfnwyd testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun

Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh

Cynghorydd MC Voisey i'r Dirprwy Arweinydd

Faint o achosion llys, (dirwyon, gorchmynion atafaelu enillion ac ati) a'r defnydd o feiliaid a ddefnyddiwyd gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn adennill y dreth gyngor sydd heb ei thalu, a faint a adenillwyd drwy gamau o'r fath?

Cynghorydd A Hussain i'r Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar

Mae tystiolaeth wedi dod i'r amlwg yn ystod y Pandemig fod COVID – 19 wedi effeithio'n anghymesur ar weithwyr iechyd proffesiynol o gefndiroedd ethnig.

A wnaiff yr Aelod Cabinet roi sicrwydd i ni fod pob gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n gweithio yn Awdurdod Iechyd Cwm Taf Morgannwg gan gynnwys ein Cartrefi Gofal wedi cael eu hasesiadau risg fel rhagofal, gan gynnwys eu hethnigrwydd fel ffactor risg, ynghyd ag oedran, pwysau, problemau iechyd sylfaenol, anabledd a beichiogrwydd, a beth ydym ni wedi'i ddydsu?

10. **Hysbysiad o Gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd R Young**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cydnabod y dystiolaeth wyddonol ysgubol o newid ym mhatrymau'r tywydd fel y dangoswyd gan y glaw a'r llifogydd digyffelyb a welwyd yn ddiweddar, yn lleol a thrwy'r DU gyfan hefyd, ac mae o'r farn fod hyn yn dystiolaeth bellach i gynhesu byd-eang, ac felly'n credu'n bendant fod argyfwng hinsawdd yn bodoli erbyn hyn, ac oherwydd hynny'n galw ar Lywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru i ddarparu'r canlynol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr:

- a. y pwerau a'r adnoddau angenrheidiol i wneud Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn niwtral o ran carbon
- b. lefelau o adnoddau ar raddfa i ymateb i'r heriau a wynebir a phrosesau ar gyfer cael gafael ar yr adnoddau hynny fydd yn ei gwneud yn bosibl gweithredu ar y cyfle cyntaf
 - i) Sefydlu mecanweithiau ymgysylltu priodol er mwyn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol
 - ii) Ymgymryd ag adolygiad ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o'r camau presennol ar gyfer ymateb i argyfwng yn yr hinsawdd
 - iii) Datblygu Strategaeth Ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd a chynllun gweithredu wedi ei flaenoriaethu sy'n esbonio camau sydd i'w cymryd yn y tymor byr, canolig a hir.

11. **Materion Brys**

I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Yn ddiffuant

K Watson

Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio

Nodyn: Sylwch: Yn sgil yr angen i gadw pellter cymdeithasol, ni fydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yn ei leoliad arferol. Yn hytrach, bydd hwn yn gyfarfod rhithwir a bydd Aelodau'r Cyngor a Swyddogion yn mynychu o bell. Bydd y cyfarfod yn cael ei recordio i'w ddarlledu ar wefan y Cyngor ar ol i'r cyfarfod orffen. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am hyn, cysylltwch â cabinet_committee@bridgend.gov.uk neu ffoniwch 01656 643147 / 643148.

Dosbarthiad:

Cynghowrwy

S Aspey
SE Baldwin
TH Beedle
JPD Blundell
NA Burnett
MC Clarke
N Clarke
RJ Collins
HJ David
P Davies
PA Davies
SK Dendy
DK Edwards
J Gebbie
T Giffard
RM Granville
CA Green
DG Howells

Cynghorwyr

A Hussain
RM James
B Jones
M Jones
MJ Kearn
DRW Lewis
JE Lewis
JR McCarthy
D Patel
RL Penhale-Thomas
AA Pucella
JC Radcliffe
KL Rowlands
B Sedgebeer
RMI Shaw
CE Smith
SG Smith
JC Spanswick

Cynghorwyr

RME Stirman
G Thomas
T Thomas
JH Tildesley MBE
E Venables
SR Vidal
MC Voisey
LM Walters
KJ Watts
CA Webster
DBF White
PJ White
A Williams
AJ Williams
HM Williams
JE Williams
RE Young

This page is intentionally left blank

CYNGOR - DYDD MERCHER, 26 CHWEFROR 2020

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWIYD YN SIAMBR Y CYNGOR,
SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB AR DYDD
MERCHER, 26 CHWEFROR 2020 AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd SE Baldwin – Cadeirydd

S Aspey	TH Beedle	JPD Blundell	NA Burnett
MC Clarke	N Clarke	RJ Collins	HJ David
P Davies	PA Davies	SK Dendy	DK Edwards
J Gebbie	RM Granville	CA Green	DG Howells
A Hussain	RM James	B Jones	M Jones
DRW Lewis	JE Lewis	JR McCarthy	D Patel
RL Penhale- Thomas	AA Pucella	JC Radcliffe	KL Rowlands
B Sedgebeer	RMI Shaw	CE Smith	SG Smith
JC Spanswick	RME Stirman	G Thomas	T Thomas
JH Tildesley MBE	E Venables	MC Voisey	LM Walters
CA Webster	DBF White	PJ White	A Williams
AJ Williams	HM Williams	RE Young	

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

T Giffard, MJ Kearns, SR Vidal, KJ Watts a/ac JE Williams

Swyddogion:

Susan Cooper	Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Deborah Exton	Dirprwy Bennaeth Cyllid dros dro
Mark Galvin	Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Lindsay Harvey	Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Gill Lewis	Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro
Mark Shephard	Prif Weithredwr
Kelly Watson	Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio

398. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

399. CADARNHAU COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod Cofnodion y cyfarfod Cyngor a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2020 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

400. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN:

Y Maer

Cyhoeddodd y Maer fod enwebiadau ar gyfer Gwobrau Dinasyddiaeth Flynyddol y Maer bellach ar gau a bod yr enillwyr wedi eu gwahodd i seremoni i'w chynnal ddiwedd Mawrth. Roedd safon y ceisiadau yn arbennig o uchel a diolchodd i bawb a roddodd o'u hamser i lenwi'r enwebiad. Yr oedd yn wych darllen am holl drigolion arbennig y fwrdeistref sirol a'r gwaith anhygoel y maent yn ei wneud yn ein cymunedau, yn aml heb i neb sylwi, ac yr oedd yn edrych ymlaen at gael cwrdd â'r bobl hyn y mis nesaf.

Gan barhau â'r thema gwobrau roedd yn bleser croesawu holl sectorau'r diwydiant adeiladu i Ben-y-bont ar Ogwr i ddathlu Gwobrau Rhagoriaeth Adeiladu blynyddol am y pedwerydd tro ar ddeg. Mae'r gwobrau wedi'u hanelu at holl ystod y diwydiant adeiladu ac maen nhw yno i helpu, i annog, ac i gymeradwyo technegau adeiladu, sgiliau cyfathrebu, bodlonrwydd cwsmeriaid, ac adeiladu o safon uchel. Diolchodd y maer i bawb am gymryd rhan, i staff rheoli adeiladu Pen-y-bont ar Ogwr am drefnu'r digwyddiad, a llongyfarchodd yr enillwyr ar ran y cyngor.

Un o freintiau bod yn Faer yw'r gwahoddiadau i ymweld â mudiadau ac elusennau lleol er mwyn cwrdd â staff, gwirfoddolwyr, a defnyddwyr y gwasanaeth, dywedodd y Maer. Yr wythnos diwethaf fe'i gwahoddwyd i'r YMCA ym Mhorthcawl i weld eu cyfleusterau ac i dystio i rai o'r gweithgareddau sy'n digwydd yn y Ganolfan. Sefydlwyd y Ganolfan yn 1908 ac mae wedi parhau i fod yn gymorth i lawer o grwpiau gwahanol ers hynny. Nid yn unig lle i ddysgu ydyw bellach, ond lle i fod yn ddiogel ac i wneud ffrindiau. Diolchodd felly i Ganolfan YMCA Porthcawl am eu hamser a'u lletygarwch o ran y uchod.

Ar ôl ymgymryd â'r swydd, penderfynodd Uchel Siryf Morgannwg Ganol weithio gyda phob awdurdod lleol a threfnu "Strafagansa Gerddorol". Dyma ddathliad o dalentau cerddorol ifanc yr holl gymunedau, ac roedd yn cynnwys cantorion unigol, offerynwyr unigol, a chorau. Cynhaliwyd y rowndiau terfynol o gwmpas Morgannwg Ganol, a chynhaliwyd y rownd derfynol yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru'r wythnos diwethaf. Roedd y noson yn ddathliad gwych o'n talentau cerddorol ifanc, a rhoddodd y Maer ddiolch i Simon Gray, ein hyfforddwr cerddoriaeth, am ei holl waith caled ac i'r holl bobl ifanc a gymerodd ran, a rhoddodd longyfarchiadau pellach i'r enillwyr haeddiannol.

Dirprwy Arweinydd

Cyhoeddodd y Dirprwy Arweinydd ei fod yn falch iawn o weld gwerthiant tri o eiddo gwag y Cyngor mewn arwerthiant yn ddiweddar er mwyn helpu i gynhyrchu arian gwerthfawr iawn i'r awdurdod.

Yn yr arwerthiant gwerthwyd hen flocc toiledau cyhoeddus yn Derwen Road, Pen-y-bont ar Ogwr, hen gartref gofal Hyfrydol ym Maesteg, a swyddfeydd hen Gyngor y dref ym Mhorthcawl yn gwerthu am £736,000.

Roedd hyn yn fwy na chwarter miliwn o bunnau dros y pris wrth gefn, canlyniad da iawn i unrhyw un.

Bydd y derbyniadau yn helpu i ariannu ein rhaglen gyfalaf, sy'n cynnwys y fenter moderneiddio Ysgolion yr 21ain Ganrif a fydd yn buddsoddi amcangyfrif o £68,000,000 mewn ysgolion Band B.

Fel y gŵyr yr Aelodau, yr oedd gwerthu Hyfrydol yn rhan o'r achos busnes i ddarparu cyfleuster gofal ychwanegol newydd sbon ym Maesteg, a symudodd Cyngor Tref Porthcawl i safle mwy addas yng nghanol y dref y llynedd.

Fel rhan o bartneriaeth rhwng Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr a'r gymdeithas masnachwyr marchnad, bydd toiledau newydd canol tref Pen-y-bont ar Ogwr yn agor yn fuan yn y farchnad dan do, tra bo toiledau cyhoeddus dal ar gael yng ngorsaf fysiau Pen-y-bont.

Roedd yn sicr y byddai'r Aelodau yn croesawu'r newyddion fel rhan o gynllun rheoli asedau hirdymor parhaus y Cyngor i ail-fodelu gwasanaethau a gwerthu asedau nad oes eu hangen bellach.

Hefyd, atgoffwyd yr Aelodau gan y Dirprwy Arweinydd fod sesiwn ddatblygu ar Gredyd Cynhwysol wedi'i threfnu ar gyfer dydd Llun 9 Mawrth. Bydd hyn yn digwydd yn Siambr y Cyngor am 9.30 am a bydd yn rhoi trosolwg o Gredyd Cynhwysol yn ogystal â gweithgareddau ychwanegol wedi'u darparu gan y Ganolfan Waith, felly gofynnodd i Gynghorwyr wneud pob ymdrech i fod yn bresennol.

Yn olaf, mae sesiwn galw heibio yn cael ei threfnu ar gyfer unrhyw Aelod sydd angen cymorth i gwblhau adroddiadau blynyddol.

Bydd hyn yn digwydd ddydd Llun 2 Mawrth yn ystafelloedd pwyllgora dau a thri, a bydd y rheolwr gwasanaethau democrataidd ar gael i gynnig cyngor ac arweiniad rhwng 9am a 11am.

Aelod Cabinet – Cymunedau

Dyweddodd yr Aelod Cabinet – Cymunedau ei fod yn siŵr y bydd yr Aelodau'n falch o nodi bod achos busnes llawn yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer darparu cynllun atal llifogydd newydd gwerth £6 miliwn ym Mhorthcawl.

Os bydd yn llwyddiannus, bydd yn arwain at waith mawr yn cael ei wneud ar ardaloedd y Western Breakwater, Eastern Promenade a Sandy Bay, a bydd yn chwyddo'r swm a fuddsoddiwyd yn adfywiad parhaus y dref dros y chwe blynedd diwethaf i fwy na £17 miliwn.

Wedi'i gynllunio i ddiogelu 530 o gartrefi a 175 o fusnesau wrth ategu cynlluniau adfywio ar gyfer Salt Lake, mae'r gwaith yn dilyn cyflwyniad amddiffynfeydd môr newydd ar draeth y dref, sy'n diogelu 260 o gartrefi, busnesau, ac adeiladau hanesyddol fel y Grand Pavilion.

Mae'r Western Breakwater yn 200 oed erbyn hyn, tra bod morglawdd yr Eastern Promenade ond ychydig yn iau, yn 160 oed. Bydd y gwaith hwn yn cynnig amddiffyniad parhaus rhag llifogydd, ac yn gweithredu fel sicrwydd ar gyfer buddsoddwyr, busnesau, ymwelwyr, trigolion, ac ati yn y dyfodol.

Bydd gwaith peirianyddol a thrwsio gwagleoedd yn helpu i'w cryfhau, ond gan eu bod yn strwythurau rhestredig rhaid i'r holl waith fodloni gofynion cadwraeth treftadaeth.

Bydd wal fach sy'n gwarchod yr ysgwrfa yn cael ei hychwanegu o amgylch pen y morglawdd, a bydd ardal y promenâd yn cael arwyneb newydd yn ogystal â gwaith tirweddu, gyda gwelyau plannu uchel, ardaloedd eistedd newydd, a mwy.

Yn sgil llwyddiant yr amddiffynfeydd môr newydd gwerth £3m ar draeth y dref, roedd ganddo obeithion mawr am y cynllun diweddaraf hwn ac yn edrych ymlaen at roi rhagor o newyddion i'r Aelodau wrth iddo ddatblygu.

Yn olaf, diolchodd yr Aelod Cabinet – Cymunedau i bawb a gysylltodd ag ef yn ddiweddar, dros e-bost yn bennaf, i ddymuno gwellhad buan iddo ar ôl ei gwmp yn ddiweddar tra ar fusnes y Cyngor ym Merthyr.

Aelod Cabinet – Cenedlaethau'r Dyfodol a Lles

Dyweddodd yr Aelod Cabinet - Cenedlaethau'r dyfodol ei bod wedi cael cyfle yn ddiweddar i weld dau gynllun tai arloesol yr oedd hi'n gobeithio a fyddai o ddiddordeb i'r Aelodau. Roedd y cyntaf yn ymwneud ag adnewyddu'r adeilad Gaylards gwag ar Court Road yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr sydd, yn gyfleus, ychydig gamau oddi wrth orsaf drenau Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r eiddo gwag yng nghanol y dref wedi'i ddwyn yn ôl i ddefnydd cyhoeddus fel 15 o fflatiau modern a fforddiadwy, ac fe'u crëwyd gan ddefnyddio arian grant Cartrefi yn y Dref. Mae V2C yn marchnata'r cartrefi gan osod y rhenti'n is na chyfraddau cyfartalog y farchnad, maent yn addas i bobl sy'n gweithio yng nghanol y dref neu'n defnyddio'r orsaf drenau gyfagos i deithio i'r gwaith ac oddi yno.

Roedd yr ail brosiect yn cynnwys 4 o dai pâr a adeiladwyd drwy Gronfa Tai Arloesol Llywodraeth Cymru gan Wernick Buildings ar Stad Ddiwydiannol Cynffig ar gyfer V2C.

Diolch i ddyluniad modiwlaid unigryw, mae'r cartrefi hyn yn cael eu paratoi i deuluoedd ddod i fyw yno yn chwim iawn. Caiff y cartrefi eu hadeiladu oddi ar y safle, ac yna caiff cyfarpar fel gwresogi a thrydan eu rhagosod yn ystod y cyfnod adeiladu. Mae cartrefi modwlar yn lleihau costau cyfleustodau'r perchenogion yn sylweddol, nid ydynt yn cael cymaint o effaith negyddol ar yr amgylcheddol o gymharu â dulliau adeiladu traddodiadol, ac maent yn tarfu llai ar y gymuned.

Roedd y ddau gynllun yn rhoi cipolwg ar sut mae tai modern yn cael eu creu, dyna ei chasgliad.

Aelod Cabinet – Gwasanaeth Cymdeithasol a Chymorth Cynnar

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar ei fod wrth ei fodd gyda chanlyniadau'r cydarolygiad diweddar i wasanaethau ar gyfer pobl hŷn ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Bu Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Iechyd Cymru yn archwilio sut mae'r cyngor a'i bartneriaid yn hyrwyddo annibyniaeth ymhlith oedolion hŷn ac yn atal eu hanghenion a'u problemau rhag gwaethygu.

Gwelwyd bod cynnydd da yn cael ei wneud, a bod gweithdrefnau a dulliau gweithredu'r gwasanaethau yn gadarn, gyda thystiolaeth o ymyrraeth gynnar ac ymdrechion sylweddol a llwyddiannus i ganolbwyntio ar fuddiant yr unigolyn yn ogystal â'r canlyniad.

Dywedodd yr arolygwyr fod pobl yn teimlo bod rhywun yn gwrandao arnynt ac yn eu clywed, a hynny yn sgil sefydlu ymgysylltiad cryf er mwyn helpu i lywio datblygiad y gwasanaeth, a bod adborth gan staff yn gadarnhaol ac yn dangos ymroddiad i'w gwaith.

Mae amrywiaeth dda o grwpiau cymunedol ar gyfer pobl hŷn ar gael, ac mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn elwa ar benderfyniadau cyflym, a dull gweithredu cydgysylltiedig.

O ran y meysydd i'w gwella, argymhellodd yr adroddiad y dylid sicrhau bod pobl yn gallu derbyn cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg, gan symleiddio rhai prosesau er mwyn cynyddu prydlondeb y cymorth, sicrhau bod y system ar gyfer trefnu gofal cartref mor effeithlon â phosibl, a gwella cysondeb o ran sut y caiff pobl eu cyfeirio at wasanaethau.

Roedd llawer o'r rhain eisoes wedi'u nodi gan y Cyngor, ac mae cynnydd yn cael ei wneud o ran eu datblygu ymhellach.

Mae'r adroddiad yn dangos ymrwymiad gweladwy tuag at weithio integredig er budd pobl Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a diolchodd i staff a phartneriaid y Cyngor am eu gwaith caled a'u hymroddiad parhaus.

Efallai y bydd yr Aelodau hefyd am sôn wrth eu hetholwyr am yr ymgyrch parhaus i recriwtio gofal cymdeithasol o'r enw 'Gofalwn'.

Cynhelir yr ymgyrch fel rhan o bartneriaeth Cwm Taf Morgannwg a'i nod yw egluro pam fod cymaint o bobl o bob cefndir yn dewis gweithio ym maes gofal cymdeithasol. Mae hefyd yn ceisio disodli rhai o'r mythau sy'n ymwneud â'r sector cyffrous hwn.

Mae gofal cymdeithasol yn cynnig sefydlogrwydd swydd oes, a'r gallu arbenigo mewn maes penodol wrth wneud gwahaniaeth o ddydd i ddydd.

Roedd yn gyfle gwych i ddatblygu gyrfa a dilyn hyfforddiant pellach, a gyda digon o gyfleoedd, mae hwn yn sector sy'n gallu cynnig sefydlogrwydd a chyfle yn gyfartal.

Am ragor o wybodaeth, gofynnodd i'r rhai a oedd yn bresennol i ymweld â'r dudalen swyddi gofal cymdeithasol yn www.Bridgend.gov.UK/cy.

Aelod Cabinet – Addysg ac Adfywio

Dyweddodd yr Aelod Cabinet – Addysg ac Adfywio fod sgwâr marchnad hygyrch newydd wedi'i greu. Fe'i cynlluniwyd i gynnal digwyddiadau arbenigol, adloniant teuluol, cyfleusterau chwarae i blant, ac arddangosfeydd gyda'r bwriad o ddenu mwy o siopwyr i'r farchnad.

Mae hyn yn rhan o brosiect parhaus i adfywio'r farchnad, prosiect sy'n cynnwys toiledau newydd a ddarperir o ganlyniad i bartneriaeth rhwng Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr; y Gymdeithas Masnachwyr Marchnad, a ni ein hunain yn CBSP.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae cyfres o baneli eglurhaol wedi'u gosod i groesawu siopwyr er mwyn rhoi gwybodaeth am hanes cyfoethog y farchnad, ac mae cloch y farchnad sy'n dyddio'n ôl i 1837 wedi'i hadleoli i'w gwneud yn fwy gweladwy.

Cyflwynwyd system renti newydd a thelerau prydles hyblyg ynghyd â gostyngiadau rhent sylweddol i stondinwyr presennol. Yn ogystal â chefnogi'r rhai sydd wedi cynnal stondinau hirdymor, rydym am i'r farchnad hefyd ddarparu ar gyfer entrepreneuriaid newydd, rhai a all dechrau mewn uned lai i roi cynnig ar eu syniad cyn penderfynu ar eu cam nesaf yn y sector manwerthu.

Rydym wedi gweld nifer o denantiaid newydd yn dod i mewn i'r farchnad, ac unwaith y bydd y gwaith presennol wedi'i gwblhau byddwn yn marchnata i llenwi'r stondinau gwag. Byddai sgwâr y farchnad hefyd yn lle delfrydol i gwrdd â ffrindiau yn y dref, ychwanegodd.

Dyweddodd yr Aelod Cabinet – Addysg ac Adfywio wrth yr Aelodau fod pob ysgol wedi bod yn derbyn cyngor ar y coronafeirws drwy ganllawiau meddygol addas a fyddai'n cael eu diweddarau wrth i bethau ddatblygu, a hynny drwy gyfrwng eu post wythnosol.

Yn olaf, gofynnodd i bob Aelod gysylltu â thrigolion eu cymunedau i'w hysbysu bod nifer o swyddi llywodraethwyr ysgol yn dal ar gael yn ysgolion y Fwrdeistref Sirol, mae angen ennyn diddordeb er mwyn llenwi'r swyddi gwag hyn.

Prif Weithredwr

Cyhoeddodd y Prif Weithredwr fod rhai Aelodau wedi gofyn beth oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ei wneud mewn ynghylch Covid-19, felly roeddwn yn meddwl y gallai helpu i roi diweddariad byr am ein sefyllfa.

Roedd yn bwysig ei fod yn teimlo i daro cydbwysedd rhwng codi bwganod a chadarnhau cyngor addas ac unrhyw ragofalon y gallai'r cyhoedd eu cymryd o ran cynllunio ar gyfer

unrhyw achosion yn y dyfodol. Realiti'r sefyllfa yw nad oes, hyd yna, unrhyw ofyn i awdurdodau lleol gymryd camau arbennig o lym, megis cau adeiladau cyhoeddus neu ohirio digwyddiadau cyhoeddus.

Rydym yn dilyn y cyngor a'r canllawiau swyddogol a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, a sefydliadau fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, sydd oll yn cydweithio i gydgyssylltu ymdrechion i atal lledaeniad y firws.

Ar lefel leol, y cyngor presennol yw y dylai ysgolion, swyddfeydd, ac adeiladau cyhoeddus aros ar agor. Rydym eisoes wedi rhoi cyngor arbenigol i ysgolion, ac rydym yn barod i gyhoeddi canllawiau pellach wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

Er ei fod yn gobeithio na fydd angen eu gweithredu, mae cynlluniau parhad busnes a chynlluniau argyfwng wedi'u llunio i sicrhau y gall y Cyngor barhau i fod yn gadarn a darparu gwasanaethau pe bai'r sefyllfa yn gwaethygu.

Ar lefel genedlaethol, dylai pawb sydd wedi dychwelyd o Iran, gogledd yr Eidal, De Korea, talaith Wuhan, neu dalaith Hubei ers 19 Chwefror hunan ynysu'n awtomatig, a chysylltu â Galw Iechyd Cymru am gyngor pellach hyd yn oed os nad ydynt yn arddangos symptomau.

Mae'r un cyngor yn berthnasol i bobl sy'n arddangos symptomau ar ôl dychwelyd o Fietnam, Cambodia, Laos, neu Myanmar ers 19 Chwefror.

Yn olaf, dylai unrhyw un sydd wedi datblygu symptomau ar ôl dychwelyd o China, Gwlad Thai, Japan, Gweriniaeth Korea, Hong Kong, Taiwan, Singapore, Malaysia neu Macau o fewn y 14 diwrnod diwethaf hunan-ynysu gartref a ffonio Galw Iechyd Cymru.

Yn hyn i gyd, mae'n bwysig nodi bod Covid-19 yn debyg iawn i fflw'r gaeaf. Gall difrifoldeb yr haint amrywio o symptomau ysgafn yn y llwybrau anadlu uchaf a gwres, hyd at ben arall y pegwn lle gall arwain at achosion difrifol o niwmonia pan fydd angen cefnogaeth yn yr ysbyty a chymorth anadlu uwch.

Hyd yma, mae Covid-19 wedi'i ganfod mewn tri ar ddeg o wladolion y DU, ac nid oes yr un ohonynt yn dod o Gymru. Yn anffodus, mae'r clefyd wedi profi i fod yn angheuol i fwy na 2000 o bobl yn China. Fel gyda fflw'r gaeaf, mae'r mwyafrif llethol o'r rhai a fu farw wedi bod yn bobl oedranus, neu bobl â chyflyrau iechyd sylfaenol.

I roi rhywfaint o gyd-destun i chi o'r marwolaethau hynny, roedd bron i un ar ddeg y cant yn bobl â chlefydau'r galon, saith y cant â diabetes, a chwech y cant â phroblemau ysgyfaint hirdymor.

O ran oedran, mae'r gyfradd marwolaethau ar hyn o bryd yn isel iawn, yn llai na dim ond pwynt-pump y cant i bobl o dan 50. Mae hyn yn codi i wyth y cant i bobl yn eu saithdegau, a phymtheg y cant i bobl sy'n hŷn na 80.

Gan fod mesurau rheoli heintiau cadarn ar waith ar lefelau rhyngwladol a chenedlaethol, mae'n bwysig sicrhau bod ein hymateb fel awdurdod lleol yn briodol ac wedi'i ystyried yn ofalus. Yn hynny o beth, mae ein hagwedd yn un o 'fusnes fel arfer', ac yr ydym yn parhau â'n rolau fel arfer.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi dweud mai'r ffordd orau o warchod rhag heintiad yw drwy ddilyn rhai egwyddorion cyffredinol yr ydym yn helpu i'w hyrwyddo.

Mae'r rhain yn cynnwys golchi eich dwylo'n rheolaidd am o leiaf 20 eiliad gan ddefnyddio sebon a dŵr, defnyddio diheintydd sy'n seiliedig ar alcohol, cael gwared ar unrhyw

hancesi a ddefnyddir ar unwaith, glanhau a diheintio gwrthrychau ac arwynebau sydd wedi'u cyffwrdd yn aml, a mwy.

Efallai y bydd yr Aelodau am gynghori eu hetholwyr i geisio rhagor o wybodaeth gan wefan lechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n cynnig rhestr o gwestiynau cyffredin am Covid-19 yn ogystal â chynghor a chymorth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Yn y cyfamser, mae'r Cyngor yn parhau i fod yn gadarn ac yn ymwybodol, ac yn barod i gymryd camau pellach yn ôl y gofyn.

Swyddog Monitro

Gofynnodd y Swyddog Monitro i'r Cyngor ystyried y newidiadau i ddyddiadau'r pwyllgorau ar y gweill canlynol:

1. Cyfarfod Cyfunol o Bwnc OSC1 a Phwnc OSC2 i ystyried yr adroddiadau ar Deithio gan Ddysgwyr ac Addysg ôl-16 gyda'i gilydd, wedi'i symud i 19 Mawrth am 2.30pm a chanslo'r cyfarfod SOSC1 ar 9 Mawrth.
2. Pwnc O&SC 3 a oedd i'w gynnal ar 18 Mawrth 2020 wedi ei ail-drefnu ar gyfer 23 Mawrth 2020.
3. Pwnc O&SC Corfforaethol a oedd i'w gynnal ar 23 Mawrth 2020 wedi ei ail-drefnu ar gyfer 30 Mawrth 2020.

Roedd Cadeiryddion pob un o'r pwyllgorau uchod wedi cytuno i newidiadau arfaethedig o'r fath.

401. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD

Cyhoeddodd yr Arweinydd fod y DU wedi gweld tywydd gwirioneddol druenus yn ddiweddar, ac roedd yn canmol staff y cyngor a fu'n gweithio'n ddiflino, ddydd a nos, drwy gydol y stormydd a'r glaw trwm diweddar.

Fel arfer, maent wedi rhoi'r ymdrech fwyaf i ddiogelu pobl ac eiddo, ac i helpu i gadw'r fwrdeistref sirol ar ei thraed.

Llwyddodd Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i ddianc rhag y rhan fwyaf o'r difrod eang a brofwyd gan ein cymdogion agos, ychwanegodd yr Arweinydd.

Unwaith eto, roedd yn credu bod rhan fawr o hyn o ganlyniad i broffesiynoldeb, profiad, ac ymrwymiad staff CBSP.

Ym mhob cwr o'r fwrdeistref sirol, gwiriwyd a chliriwyd ceuffosydd a draeniau ymhell cyn i'r stormydd daro, a gosodwyd lliidiardau dŵr ar hyd Porth yr Angel.

Llanwyd a pharatowyd miloedd o fagiau tywod, ac roedd criwiau'n barod am y gwaethaf gyda chyfarpar a oedd yn cynnwys jetiau dŵr, llifiau cadwyn, JCBs, a theclynnau codi.

Pan darodd y stormydd, roedd criwiau allan yn y tywydd mawr, yn clirio malurion o ddraeniau, yn dosbarthu bagiau tywod, yn symud coed a syrthiodd ac arwyddion wedi'u difrodi, yn trwsio ffensys wedi torri, yn diogelu goleuadau stryd, a llawer mwy yn ogystal.

Yn anffodus, ychwanegodd yr Arweinydd, gwelwyd llifogydd mewn sawl eiddo yn Nyffryn Ogwr oherwydd y glaw, a bu ein staff yno yn helpu'r trigolion. Mae swyddogion y tîm rheoli llifogydd yn ymchwilio achosion y llifogydd.

Pan oedd y glaw ar ei anterth, bu llifogydd dros nifer o ffyrdd a chaewyd rhai ohonynt nes cilio'r dŵr a chlirio'r malurion, bu'n rhaid i griwiau ddadflocio ceuffosydd ym Mhencoed ar ôl iddynt gael eu tagu gan falurion a oedd wedi'u cario gyda'r afon.

Syrthiodd coeden ar y ffordd rhwng Pen-y-bont ar Ogwr a Maesteg gan ei chau am gyfnod, tra ar y Bwlch roedd y dŵr yn gollwng gyda'r fath rym nes gorlifo'r muriau a draeniau, a gwthio creigiau a cherrig i lawr i'r ffordd.

Yn sgil y stormydd, roedd staff y Cyngor hefyd wedi bod wedi cynnal rhag-wiriadau pellach yn 41 o hen safleoedd cloddio glo yng nghymoedd Ogwr, Garw a Llynfi i sicrhau eu bod yn ddiogel.

Cynigiwyd cymorth ac offer i gydweithwyr yn Rhondda Cynon Taf hefyd, lle mae cannoedd o gartrefi ac eiddo wedi'u difrodi gan y llifogydd a datganwyd argyfwng mawr. Manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i dalu teyrnged i gydweithwyr yn y gwasanaethau brys, yn enwedig Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Heddlu De Cymru, a staff y GIG a fu;'n peryglu eu bywydau ar brydiau wrth ateb y galw.

Gan mai'r holl dystiolaeth a'r rhagolygon yw y bydd tywydd mwy eithafol yn cael ei brofi'n amlach yn y dyfodol, bydd BCBS yn ystyried yn ofalus yn y misoedd nesaf sut y gall gynyddu'r adnoddau i leihau'r perygl o lifogydd yn y dyfodol. Bydd yr Awdurdod hefyd yn ystyried sut y gall gryfhau'r gallu i ymateb i lifogydd pan fydd yn digwydd.

Cyhoeddodd yr Arweinydd ei fod yn falch bod yr Awdurdod yn datblygu cynlluniau ar gyfer rhaglen brentisiaeth £600,000 newydd a fydd yn sicrhau bod modd cadw a meithrin sgiliau arbenigol o fewn y sefydliad.

Bydd y cynigion yn galluogi staff i ymgymryd â hyfforddiant ffurfiol yn ogystal â datblygu sgiliau ymarferol, a byddant yn targedu meysydd arbenigol fel priffyrdd, peirianeg, cynllunio, trefesur, TG, rheoli adeiladu, cludiant a mwy.

Ers 2013, mae'r Cyngor wedi cefnogi 51 o brentisiaethau, gyda llawer yn mynd ymlaen i weithio'n llawn amser i'r awdurdod lleol.

Ond yn debyg i sefydliadau mawr eraill, mae gan y Cyngor weithlu hŷn ac mae llawer o bobl yr ydym yn dibynnu arnynt yn agosáu at oed ymddeol, felly mae hyn yn ffordd ragorol o sicrhau nad yw'r sgiliau gwerthfawr hynny'n cael eu colli, ond yn hytrach yn cael eu trosglwyddo i'r genhedlaeth nesaf o weithwyr.

402. CYFLWYNIAD GAN AWDURDOD TÂN AC ACHUB DE CYMRU

Cyflwynwyd y canlynol i'r cyfarfod gan y Maer: C Barton, Trysorydd a H Jakeway, Prif Swyddog Tân Awdurdod Tân De Cymru i roi cyflwyniad ar y cyd.

Cadarnhawyd bod gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) 47 Gorsaf Dân yn cwmpasu'r ardaloedd canlynol:-

- CBS Pen-y-bont ar Ogwr
- Blaenau Gwent
- Rhondda Cynon Taf
- Bro Morgannwg
- Caerffili

CYNGOR - DYDD MERCHER, 26 CHWEFROR 2020

- Merthyr Tudful
- Torfaen
- Sir Fynwy
- Casnewydd
- Caerdydd

Ymrwymodd pob un o'r Awdurdodau Unedol uchod y symiau canlynol ar gyfer GTADC, gyda phoblogaeth pob Bwrdeistref Sirol yn cael ei dangos mewn cromfachau yn dilyn y swm:-

1. Merthyr Tudful - £2,790,365 (59,254)
2. Rhondda Cynon Taf - £11,252,298 (238,945)
3. Pen-y-bont ar Ogwr - £6,746,905 (143,272)
4. Bro Morgannwg - £6,047,690 (128,424)
5. Caerdydd - £17,437,965 (370,299)
6. Torfaen - £4,336,523 (92,087)
7. Casnewydd - £7,028,029 (149,243)
8. Sir Fynwy - £4,382,814 (93,070)
9. Blaenau Gwent - £3,266,932 (69,374)
10. Caerffili - £8,537,563 (181,297)

Ychydig dros £70m oedd gan y GTADC fel Cyllideb Refeniw yn 2019/20, a gwariwyd 75% o hyn ar gostau staff. Gwariwyd cryn dipyn o'r swm ar bersonél gweithredol, gyda rhai gwasanaethau'n rhai allanol ond y rhan fwyaf yn wariant mewnol.

Yna, rhoddodd y Swyddog grynodedd o'r hyn yr oedd cyllideb y GTADC yn ei gwmpasu, a oedd yn cynnwys:-

- Trafnidiaeth
- Cyflenwadau
- Hyfforddiant
- Adeiladau
- Incwm Cyllido Cyfalaf
- Arall

Rhannwyd y gyllideb ar gyfer cyflogaeth yn gostau Rheoli, Cymorth, Gweithredol a chostau eraill.

Cadarnhaodd swyddogion fod yn rhaid i GTADC ddefnyddio tua 7% o'i gyllideb i ariannu benthyca ar gyfer ei raglen Gyfalaf, er mwyn cyflawni ei swyddogaethau'n llawn. Fodd bynnag, ers dechrau cyni a'r dirwasgiad yn dilyn hynny, bu newid yn y Gyllideb Refeniw Net sy'n cyfateb i ostyngiad o tua 17% mewn termau real.

Yna hysbyswyd y Cyngor bod tri Awdurdod Tân yng Nghymru, yn cwmpasu ardaloedd De Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gogledd Cymru. Derbyniodd GTADC hefyd grantiau Llywodraeth Cymru a chyllid ar gyfer costau pensiwn tuag at ei incwm cyffredinol. Amcangyfrifwyd y byddai arian gan Lywodraeth Cymru ar gyfer costau pensiwn yn cael ei dorri o £200k yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Roedd pwysau ariannol o ran costau adeiladau a'r gofyniad i adnewyddu rhywfaint o gyfarpar, h.y. injans tân ac offer diffodd tân eraill.

Bu'n rhaid i GTADC hefyd gadw hyn a hyn o gyllid fel arian wrth gefn ar gyfer gwariant annisgwyl, er enghraifft costau gweithredu diwydiannol, lle byddai angen y gwasanaethau brys o hyd.

O ran pwysau ar y gyllideb, roedd cyllideb GTADC yn tybio arbediad effeithlonrwydd o £0.4m ar staffio bob blwyddyn. Cafodd yr holl ffactorau chwyddiant eraill eu hymgorffori o fewn cyllidebau presennol. Roedd gorwariant cyfredol rhagamcanol o £0.9m wedi'i ymgorffori drwy ddulliau eraill ar gyfer arbedion gwariant.

O ran y risgiau yn ardal De Cymru, eglurodd Swyddogion fod y rhain yn ymwneud â chyfrifoldeb yr Awdurdod Tân wrth ofalu am y seilwaith fel y rhwydwaith priffyrdd a strwythurau eraill megis pontydd, yn ogystal â'r rhai a oedd yn ymwneud â digwyddiadau chwaraeon mawr a digwyddiadau eraill (cerddoriaeth) a oedd yn denu cryn dipyn o'r cyhoedd mewn un lle ar unrhyw adeg benodol.

Roedd y Gwasanaeth hefyd yn edrych ar raglenni Cadetiaid Tân, gydag 13 yn cael eu cynnal ar draws ardaloedd yr awdurdodau lleol, gyda'r rhaglenni'n darparu ar gyfer pobl ifanc 13 – 18 oed i'w hannog (gan gynnwys drwy ddilyn cymhwyster BTEC priodol).

Mae GTADC hefyd yn gweithio ar fentrau diogelwch yn y cartref, gan gyflwyno synwryddion mwg a gwres am ddim mewn cartrefi sydd mewn perygl, h.y. yn enwedig mewn cartrefi lle mae pobl oedrannus/agored i niwed. Roedd y Gwasanaeth hefyd yn edrych ar lefelau a gofynion diogelwch mewn safleoedd masnachol a diwydiannol.

Roedd GTADC hefyd yn edrych ar lefelau diogelwch mewn unrhyw adeiladau uchel iawn, gan edrych yn benodol am unrhyw risgiau fflamadwy o ran strwythur yr adeilad, yn enwedig ar ôl trychinebau fel tân tŵr Grenfell. Roedd yn hanfodol bod gwaith adeiladu adeiladau'n cydymffurfio â safonau diogelwch rheoleiddio tân.

Ers 2017, mae gan yr Awdurdod Tân hefyd ddyletswydd statudol i ymateb i achosion o lifogydd.

Mae gan y Gwasanaeth swyddogaeth ystafell reoli ar y cyd gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Heddlu De Cymru. Roedd y trefniant cydweithredol hwn wedi arwain at arbediad o fwy na £1m y flwyddyn.

Yna, cyfeiriodd y Swyddogion at alwadau brys a wnaed gan GTADC yn 2018 o gymharu â 2003 mewn 16 o gategoriâu gwahanol ac roedd y canfyddiadau'n gadarnhaol, gan y bu gostyngiad yn nifer y rhain mewn 14 o'r 16 categori, gyda chynnydd bach o 3% mewn galwadau Gwasanaeth Arbennig a chynnydd o 8% mewn galwadau Gwasanaeth Arbennig Eraill, a oedd o ganlyniad i dreial cenedlaethol gyda chriwiau tân yn cynorthwyo'r gwasanaeth ambiwlans gyda rhai galwadau lle roedd perygl tyngedfennol i fywyd.

Rhoddodd sleidiau olaf y cyflwyniad PowerPoint wybodaeth o'r cyfnod rhwng 2009/10 a 2018/19 ar y canlynol:-

1. Digwyddiadau Gweithredol Pen-y-bont ar Ogwr
2. Tanau a gafodd eu trin ym Mhen-y-bont ar Ogwr
3. Marwolaethau yn sgil Tanau ym Mhen-y-bont ar Ogwr
4. Anafiadau yn sgil Tanau ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a
5. Tanau Damweiniol Mewn Cartrefi ym Mhen-y-bont ar Ogwr

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau ac ymatebion y Swyddogion Tân, diolchodd y Maer iddynt am fynychu a rhannu gwybodaeth allweddol gyda'r Cyngor ac adleisiwyd hyn gan yr Arweinydd; yn dilyn hynny, daeth y cyfarfod i ben.

CWBLHAWYD: Nododd y Cyngor yr adroddiad eglurhaol a'r cyflwyniad ategol a roddwyd gan Swyddogion Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, ar rai o'r gwasanaethau allweddol y mae'n eu darparu yn y Fwrdeistref Sirol.

403. ADOLYGU CYNLLUN CORFFORAETHOL 2018-2022 AR GYFER 2020-21

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid Dros Dro a ofynnai i'r Cyngor gymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol 2018-2022 a adolygwyd ar gyfer 2020-21 (Atodiad A i'r adroddiad A gyfeiriwyd).

Roedd Cynllun Corfforaethol 2018-2022 yn disgrifio gweledigaeth y Cyngor ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr; ei 3 amcan llesiant a'n gwerthoedd a'n hegwyddorion sefydliadol sy'n gosod sylfaen i ddulliau'r Cyngor o gyflawni ei flaenoriaethau.

Eglurodd fod y sylwadau a dderbyniwyd drwy'r broses drosolwg a chraffu wedi bod yn werthfawr a'u bod wedi arwain at addasu'r Cynllun Corfforaethol yn unol â hynny, i ymgorffori rhai o'u hargymhellion.

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro grynodedb o rai o'r themâu allweddol a gynhwyswyd yn y Cynllun Corfforaethol, gan gynnwys y ffaith bod gan CBSP 4,225 o weithwyr amser llawn a oedd yn darparu dros 800 o wasanaethau gwahanol.

Roedd y cynllun yn cynnwys 7 nod llesiant hirdymor, gan roi diffiniadau eglur o 5 ffordd o weithio. Roedd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sut y pennodd yr awdurdod lleol ei gyllideb, ac eglurodd hefyd sut yr oedd y Cyngor yn gweithio gyda rhai partneriaid a rhanddeiliaid allweddol i gyflawni nodau ac amcanion y cynllun.

Roedd nifer o fesurau llwyddiant newydd yn y cynllun (rhai ohonynt yn ddangosyddion cenedlaethol newydd) yn gysylltiedig ag ymrwymadau'r CBSP i sicrhau y gall yr Awdurdod fonitro cynnydd. Lle'r oedd modd i wneud hynny, gosodwyd targedau i helpu i sbarduno gwelliant; Pan oedd dangosyddion newydd heb unrhyw wybodaeth feincnodi y targed oedd sefydlu gwaelodlin.

Esboniodd y byddai'r cynllun yn cael ei adolygu'n flynyddol i ystyried amgylchiadau cyfnewidiol a'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion llesiant a hefyd i sicrhau bod gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol (Cymru) 2015 yn cael eu bodloni.

Gorffennodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro ei chyflwyniad drwy gynghori bod asesiad llesiant o effaith y Cynllun Corfforaethol wedi'i gwblhau a'i gynnwys yn Atodiad B yr adroddiad.

Diolchodd yr Arweinydd i bawb a oedd wedi cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol. Dywedodd ei fod yn cael ei 'ddiweddaru' bob blwyddyn ac er nad oedd yn cynnwys rhestr gynhwysfawr o'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor, roedd yn manylu ar rai o'r rhai pwysicaf. Ychwanegodd fod y cynllun hefyd yn canolbwyntio ar risgiau'r cyngor a meysydd lle'r oedd rhywfaint o le i wella perfformiad yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD: Fod y Cyngor yn cymeradwyo a mabwysiadu'r Cynllun Corfforaethol 2018-2022 a adolygwyd ar gyfer 2020-21.

404. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2020-21 I 2023-24

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid Dros Dro a'r Swyddog Adran 151 o oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2020-21 i 2023-24, a atodir yn Atodiad 3, sy'n cynnwys rhagolwg ariannol ar gyfer 2020-24, cyllideb refeniw fanwl ar gyfer 2020-21 a Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2019-20 i 2029-30. Mae hyn yn dibynnu ar gymeradwyaeth y Cabinet ar 25 Chwefror 2020.

Dyweddodd mai dyraniad y gyllideb sy'n pennu i ba raddau y gellir cyflawni amcanion llesiant y Cyngor. Mae'r Cynllun Corfforaethol a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) yn nodi blaenoriaethau gwasanaeth ac adnoddau'r Cyngor ar gyfer y pedair blwyddyn ariannol nesaf, gan ganolbwyntio'n benodol ar 2020-21.

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Cyngor i ddarparu manylion am Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ar gyfer y cyfnod o bedair blynedd rhwng 2020-21 a 2023-24. Mae'r SATC yn ategu Cynllun Corfforaethol y Cyngor, ac mae'n edrych ar ddarparu'r adnoddau i alluogi cyflawni amcanion lles y Cyngor. Mae'r SATC yn amlinellu'r egwyddorion a'r tybiaethau manwl sy'n llywio cyllideb a phenderfyniadau gwariant y Cyngor, yn amlinellu'r cyd-destun ariannol y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddo, ac yn ceisio lliniaru unrhyw risgiau a phwysau ariannol yn y dyfodol, gan fanteisio ar unrhyw gyfleoedd sy'n codi hefyd.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro a'r Swyddog Adran 151 fod y cyhoeddiad ynghylch setliad terfynol Llywodraeth Leol ar gyfer 2020-21 oddeutu deufis yn hwyrach na'r blynyddoedd blaenorol, oherwydd dyddiad cau newidiol Brexit ac yna etholiad cyffredinol y DU, ac o ganlyniad mae'r gyllideb hon yn cael ei chynnig ar sail y setliad dros dro a dderbyniwyd ym mis Rhagfyr 2019. Er nad ydym yn rhagweld newid sylweddol mewn cyllid rhwng y setliad dros dro a'r un terfynol, byddai'r modd y bydd yr Awdurdod yn ymdrin ag unrhyw newidiadau yn cael ei egluro yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ac yn cael ei adrodd yn ôl i'r Cyngor yn ddiweddarach. Ni ragwelwyd y byddai newidiadau a fyddai'n effeithio ar y dreth gyngor.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r materion ariannol y gofynnir i'r Cyngor eu hystyried fel rhan o'r 2020-21 i 2023-24 o'r SATC. Roedd yn ofynnol i Swyddog Adran 151 y Cyngor adrodd yn flynyddol ar gadernid lefel y cronfeydd wrth gefn. Roedd lefel cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn ddigonol i ddiogelu'r Cyngor yng ngoleuni galwadau anhysbys neu argyfyngau a'r lefelau ariannu presennol. Rhaid pwysleisio bod y risgiau ariannol mwyaf y mae'r Cyngor yn agored iddynt ar hyn o bryd yn ymwneud ag ansicrwydd cyllid Llywodraeth Cymru, yr anhawster cynyddol i gyflawni gostyngiadau arfaethedig yn y gyllideb, yn ogystal â nodi cynigion pellach. Felly, roedd yn hanfodol bod balans Cronfa'r Cyngor yn cael ei reoli yn unol ag egwyddor 9 y SATC, fel y nodir yn y SATC, ac mae'n hanfodol bod gwariant y gwasanaeth refeniw a gwariant cyfalaf yn cael ei gynnwys o fewn y cyllidebau a nodwyd.

Roedd yn ofynnol i'r Swyddog Adran 151 roi adroddiad pellach i'r Cyngor os nad ydynt yn credu bod ganddynt ddigon o adnoddau i gyflawni eu rôl fel sy'n ofynnol gan S114 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988. Dylai'r Aelodau nodi, eglurodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro a'r Swyddog Adran 151, bod digon o adnoddau ar gael i gyflawni'r rôl hon.

Yna cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro a'r Swyddog Adran 151 at Atodiadau'r adroddiadau a rhoddwyd crynodeb o rai ohonynt er budd yr Aelodau. Rhoddwyd y wybodaeth ategol fel a ganlyn:-

- Annex 1 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Annex 2 – Asesiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Annex 3 – SATC 2020-21 i 2023-24
- Atodiad A – 2020-21 Pwysau ar y Gyllideb
- Atodiad B – Cynigion i Leihau'r Gyllideb 2020-21 i 2023-24
- Atodiad C – Cynigion Ffioedd a Thaliadau 2020-21
- Atodiad D – Cyllidebau Sail Cyfarwyddiaeth fesul Maes Gwasanaeth 2020-21
- Atodiad E – Cyllidebau Sail Cyfarwyddiaeth yn unol ag Amcanion Llesiant
- Atodiad F – Protocol Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau

- Atodiad G – Rhaglen Gyfalaf 2019-2030
- Atodiad H – Ymateb y Cabinet i'r Trosolwg a Chraffu Corfforaethol ar faterion yn ymwneud â'r Gyllideb
- Atodiad I – Asesiad Risg Corfforaethol

Roedd y Dirprwy Arweinydd yn dymuno i'w ddiolch i'r Pennaeth Cyllid Dros Dro, y Swyddog Adran 151, a'r Swyddogion Cyllid gael ei gofnodi, am yr holl waith caled yr oeddent wedi'i gyflawni i sicrhau bod y Cyngor wedi pennu cyllideb fantoledig ar gyfer 2020-21.

Roedd CBSP eisoes wedi lleihau ei wasanaethau ers y cyni economaidd gan gyfateb i £68m yn ystod y cyfnod hwn. Roedd arbedion pellach o £26m wedi'u cynllunio ar gyfer y 3 blynedd nesaf, ychwanegodd. Fodd bynnag, roedd y Cyngor yn dal i fwriadu darparu gwasanaethau o ansawdd uchel a bodloni ei amcanion fel y'u hamlinellir yn y Cynllun Corfforaethol.

Estynnodd y Dirprwy Arweinydd ei ddiolch hefyd i Aelodau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, y Panel Ymchwil a Gwerthuso Cyllideb (BREP), a'r etholwyr hynny a gyfrannodd i'r ymgynghoriad ar y gyllideb. Diolchodd hefyd i Lywodraeth Cymru am yr arian ychwanegol a roddwyd i awdurdodau lleol megis CBSP.

Mae'r Cyngor, ychwanegodd, fel rhan o'r SATC wedi rhoi ymrwymiad ariannol i Ysgolion, gan gynnwys Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a thuag at recriwtio prentisiaid. Roedd £2m hefyd wedi'i addo i'r Byd Cyhoeddus i helpu gyda seilwaith y Cyngor ac i helpu gyda'r broblem gynyddol o lifogydd oherwydd newid mewn amodau hinsawdd.

Nododd un Aelod o'r adroddiad fod tanwariant yn adran y Prif Weithredwyr a'r Gyfarwyddiaeth Gymunedau, a bod yr olaf ohonynt wedi cael nifer sylweddol o doriadau i'w chyllideb yn ystod y blynyddoedd y dirwasgiad. Felly holodd pam y bu tanwariant mewn Gyfarwyddiaeth a welodd doriadau mor sylweddol yn y gyllideb yn ystod y blynyddoedd da diwethaf. Roedd y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth I Deuluoedd wedi gorwario, tra bod y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles wedi gorwario o gryn dipyn. Mae hyn yn ychwanegol i'r dyraniad arbedion y mae'n ofynnol i'r Gyfarwyddiaethau eu gwneud yn y flwyddyn ariannol nesaf. Ar hyn o bryd, o fewn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles nid oes cynlluniau cadarn ar gyfer £175k o arbedion a gyllidebwyd ac maent wedi'u graddio'n goch, h.y. heb eu cyfrif hyd yma.

Ymatebodd y Prif Weithredwr i'r cwestiwn am y gorwariant a'r gorwario o safbwynt Gyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr. Eglurodd fod y tanwariant wedi deillio o gyfuniad o ffactorau: yr anallu i recriwtio, a chadw swyddi wrth ragweld setliad gwaeth na'r hyn a dderbyniwyd mewn gwirionedd. Eglurodd ei fod wedi cynnal ymarfer gyda Swyddogion Cyllid i nodi ble roedd y swyddi gwag a'r rheswm eu bod yn wag. Wrth barhau, bydd adolygiad yn cael ei gynnal i benderfynu a oes angen y swyddi hyn o hyd ai peidio. O ran tanwariant y Gyfarwyddiaeth Gymunedau, dywedodd nad oedd hyn mor fawr â hynny, a'i bod yn amhosibl cael y gwariant union i'r gyllideb. Cyfeiriodd at y gorwariant mewn Addysg a throsglwyddo'r awenau i'r Gyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd, amlinellodd y rhesymau dros y pwysau gorwario hwn yn ei Gyfarwyddiaeth, a oedd yn ymwneud â Chludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol a lleoliadau y Tu Allan i'r Sir o ganlyniad i alwadau ar y gwasanaethau neu ofynion deddfwriaethol, a bod dyletswydd ar yr Awdurdod i gwrrd â'r ddau. Ychwanegodd y Gyfarwyddwr Corfforaethol -Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod y rhesymau hyn hefyd yn berthnasol i'r gorwariant a oedd wedi digwydd yn ei Chyfarwyddiaeth hi, h.y. galwadau statudol ar rai meysydd gwasanaeth allweddol penodol, a rhai ohonynt allan o'i rheolaeth i raddau.

CYNGOR - DYDD MERCHER, 26 CHWEFROR 2020

Gofynnodd Aelod a oedd unrhyw ddiweddariadau pellach gyda'r SATC o ran Trosglwyddo Asedau Cymunedol, mewn perthynas â chlybiau, cymdeithasau a sefydliadau eraill yn cymryd cyfrifoldeb am Bafiliynau Chwaraeon a Chaeau Chwarae ac ati, meysydd a oedd gynt yn derbyn cymhorthdal gan yr awdurdod lleol.

Dywedodd yr Arweinydd y byddai'r Cyngor yn anrhydeddu unrhyw Fyngiant o Ddiddordeb gan Glybiau ac ati i gymryd yr asedau hyn, gydag unrhyw daliadau am weithredu a/neu gynnal a chadw yn cael eu cefnogi'n ariannol gan yr awdurdod lleol. Ychwanegodd ei bod yn bosibl na chaiff yr ymrwymiad hwn ei roi yn y dyfodol hirdymor, ond neilltuwyd ymrwymiad ariannol o'r fath, hyd at yr etholiadau lleol nesaf gobeithio.

Yna, gofynnodd yr Aelodau am bleidlais electronig, gyda'r bwriad o gael pleidlais wedi'i chofnodi ar argymhellion yr adroddiad. Ar ôl i'r bleidlais honno gael ei chynnal, cytunodd y Cyngor yn unfrydol i gael pleidlais wedi'i chofnodi ar gynigion yr SATC, ac roedd y canlyniad fel a ganlyn:-

STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2020-21 I 2023-24	
Cynghorydd Sean Aspey	O Blaid
Cynghorydd Stuart Baldwin	Y matal
Cynghorydd Tom Beedle	Y matal
Cynghorydd Jon-Paul Blundell	O Blaid
Cynghorydd Nicole Burnett	O Blaid
Cynghorydd Mike Clarke	O Blaid
Cynghorydd Norah Clarke	O Blaid
Cynghorydd Richard Collins	O Blaid
Cynghorydd Huw David	O Blaid
Cynghorydd Paul Davies	O Blaid
Cynghorydd Pam Davies	O Blaid
Cynghorydd Sorrel Dendy	Y matal
Cynghorydd Keith Edwards	Y matal
Cynghorydd Jane Gebbie	O Blaid
Cynghorydd Richard Granville	O Blaid
Cynghorydd Cheryl Green	O Blaid
Cynghorydd Gareth Howells	O Blaid
Cynghorydd Altaf Hussain	Y matal
Cynghorydd Malcolm James	Y matal
Cynghorydd Brian Jones	Y matal
Cynghorydd Martyn Jones	O Blaid
Cynghorydd David Lewis	O Blaid
Cynghorydd Janice Lewis	O Blaid
Cynghorydd John McCarthy	O Blaid
Cynghorydd Dhanisha Patel	O Blaid
Cynghorydd Ross Penhale-Thomas	Y matal
Cynghorydd Aniel Pucella	Y matal
Cynghorydd James Radcliffe	Y matal
Cynghorydd Kay Rowlands	Y matal
Cynghorydd Bridie Sedgebeer	O Blaid
Cynghorydd Charles Smith	O Blaid
Cynghorydd Stephen Smith	O Blaid
Cynghorydd John Spanswick	O Blaid
Cynghorydd Roz Stirman	Y matal
Cynghorydd Gary Thomas	O Blaid
Cynghorydd Tim Thomas	Y matal

CYNGOR - DYDD MERCHER, 26 CHWEFROR 2020

Cynghorydd Jefferson Tildesley MBE	Y matal
Cynghorydd Elaine Venables	Y matal
Cynghorydd Matthew Voisey	Y matal
Cynghorydd Lyn Walters	Y matal
Cynghorydd Carolyn Webster	Y matal
Cynghorydd David White	O Blaid
Cynghorydd Philip White	O Blaid
Cynghorydd Alex Williams	O Blaid
Cynghorydd Amanda Williams	Y matal
Cynghorydd Hywel Williams	O Blaid
Cynghorydd Richard Young	O Blaid
Argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn	

<u>O Blaid</u>	<u>Yn Erbyn</u>	<u>Ymatal</u>	<u>Heb Bleidleisio</u>
28	0	19	1

405. TRETH GYNGOR 2020-21

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro a'r Swyddog Adran 151 adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi manylion i'r cyngor Cyngor ynglŷn â gofyniad Treth Gyngor ar gyfer y Cyngor Bwrdeistref Sirol ynghyd â gofynion y Comisiynydd Heddlu & Throseddu ar gyfer De Cymru a Chynghorau Cymuned/Tref.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu gwybodaeth gefndirol benodol, ac yn dilyn hynny cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro a'r Swyddog Adran 151 yr Aelodau at baragraff 4.4, a ddangosodd y Dreth Gyngor gyfartalog ar gyfer y Fwrdeistref Sirol ar gyfer 2020-21 yn Nhabl 3.

Ychwanegodd fod gofyn i'r Cyngor, fel yr awdurdod bilio, gymeradwyo'r Dreth Gyngor yn ffurfiol ar gyfer ei ardal. Rhaid gosod hyn i gwrdd â gofyniad cyllideb net yr Awdurdod a'i awdurdodau praeseptio. Amlinellwyd manylion am hyn yn Nhabl 5 o fewn yr adroddiad.

